

Gweddïau i gyd-fynd â Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru

Gweddi 1a Ffurf fer

Dduw haelionus,
creaist dy holl bobl ar dy ddelw dy hun
a'u coroni â gogoniant ac anrhydedd.
Cynorthwya ni i drin ein gilydd ag urddas a pharch.
Meithrin ynom ddoniau dy Ysbryd Glân
fel y cawn ddyrchafu'r rhai distadl
a gweithredu tuag at bawb ar batrwm Crist
y Brenin tlawd,
a fu farw drosom,
a gyfododd drachefn,
ac sy'n fyw byth bythoedd yng ngrym cariad.
Amen.

Gweddi 1b Ffurf wreiddiol

Dduw haelionus,
creaist dy bobl ar dy ddelw dy hun
a'u coroni â gogoniant ac anrhydedd.
Yng nghyflawniad yr amser,
anfonaist dy Fab i amlygu dy ras achubol
a thywallt dy fywyd helaeth,
i ddyrchafu'r rhai distadl
a sefydlu teyrnasiad cyfiawnder, heddwch a llawenydd.
Cynorthwya ni i drin ein gilydd ag urddas a pharch,
meithrin ynom ddoniau dy Ysbryd Glân
a llunia ein cymeriad ar lun Grist,
y Brenin tlawd,
a fu farw drosom,
a gyfododd drachefn,
ac sy'n fyw yng ngrym cariad byth bythoedd.
Amen.

Gweddi 2 Gweddi fyfyrïol – at ddefnydd personol

Dduw haelionus,
creaist ni, yn wryw ac yn fenyw, ar dy ddelw ac yn ôl dy lun,
i lywodraethu'r greadigaeth mewn doethineb ac uniondeb.
Coronaist ni â gogoniant ac anrhydedd

a'n dysgu i sychedu am dy deyrnas
sy'n llawn cyfiawnder, heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.

Diolchwn i ti am dywallt dy drugaredd arnom yng Nghrist, dy Fab,
ac mewn un Ysbryd ein bedyddio i un corff.

Yn aelodau o gorff Crist,
cynorthwya ni i drin ein gilydd ag urddas a pharch,
o fewn yr eglwys ac o fewn ein cymunedau.

Ysbrydola ni o'r newydd drwy esiampl Iesu,
dy Air dwyfol, sydd yn llawn gras a gwirionedd,
oherwydd ynddo ef, rwyd ti'n dyrchafu'r rhai distadl
ac yn darostwng y balch a'r sarhaus.

Dysg ni bob dydd i ddisgleirio â goleuni Crist,
i ddewis geiriau doeth sy'n llefaru'r gwir mewn cariad,
ac i fod yn ymwybodol o'r hyn a gyflëir y tu hwnt i eiriau.
Helpa ni i fyfrio'n ddwfn ar ansawdd ein perthynas ag eraill,
ffurfia arferion tosturi oddi mewn,
ac wrth i ni gydnabod ein camddefnydd o rym
arwain ni i wir edifeirwch ac adnewyddiad.

Trwy dy Ysbryd Glân,
llunia ein cymeriad fel y cawn wir ymdebygu iddo ef
a ddygodd faddeuant i'r briwedig o galon,
iachâd i'r clwyfedig,
a newydd-deb bywyd i'r rhai sy'n blant annwyl i ti.

Adfer ni sy'n gyfeillion a dilynwyr i'r un
a olchodd draed ei ddisgyblion,
a fradychwyd gan bechaduriaid,
ac a fu farw drosom dan bwysau gormes rymus.
Rhyddha dy bobl o bob cadwyn
a chyfoda ni i rannu yn ei fywyd atgyfodedig ef,
gan gyhoeddi buddugoliaeth dragwyddol cariad.

Gofynnwn hyn yn enw ein Brenin tlawd,
Iesu Grist, ein Harglwydd byw.
Amen.

*Mae'r weddi hon yn cynnwys nifer o adleisiau Beiblaidd, gan gynnwys Genesis 1:26 - 28; Salm 8:4;
Rhufeiniaid 14:17; Effesiaid 2:4; 1 Corinthiaid 12:13; Ioan 1:17; Luc 1:51-53; Effesiaid 4:15; Ioan 13:5.*